# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 16 Hydref 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5852

# 235

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1, 2, a 4-8. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 2, 3, 7 ac 8 gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 15.10

Gofynnwyd y 4 cwestiwn.

## 4 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.21

I'w ateb gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** Yn dilyn yr ansicrwydd am brosesydd llaeth Tomlinsons Dairy, a'r ffaith fod yna 70 o ffermydd llaeth a channoedd o swyddi yn ddibynol ar yr hufenfa, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynorthwyo'r cwmni a'r gweithlu?

**I'w ateb gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Alun Davies (Blaenau Gwent):** Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud yn dilyn carcharu arweinwyr gwleidyddol etholedig Catalonia?

**Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**

**David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn dilyn y cyhoeddiad ynghylch cau Hi-Lex a cholli 120 o swyddi ym Mharc Ynni Baglan?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 16.07

Gwnaeth **Suzy Davies** ddatganiad am - Diwrnod Adfywio Calon.

Gwnaeth **Ann Jones** ddatganiad am - Dangos y cerdyn coch i hiliaeth.

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Defnyddio Plastigau Untro

Dechreuodd yr eitem am 16.10

**NDM7155** Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar ddefnyddio plastigau untro.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) lleihau'n sylweddol y defnydd o blastigau untro yn seiliedig ar yr arferion a'r ymchwil rhyngwladol gorau, a fyddai'n sefydlu Cymru fel arweinydd byd o ran lleihau gwastraff plastig;

b) cyflwyno trethi ac ardollau priodol er mwyn lleihau'n sylweddol y gwaith o gynhyrchu plastigau untro yng Nghymru a'r defnydd ohonynt;

c) cyflwyno cynllun gweithredu trawslywodraethol gan gynnwys cyfres gynhwysfawr o fesurau i leihau'n sylweddol y defnydd o blastigau untro;

d) pennu targedau a cherrig milltir ar gyfer lleihau plastigau untro penodol.

Cefnogwyr

Alun Davies (Blaenau Gwent)

Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru)

David Rees (Aberafan)

Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)

Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Hefin David (Caerffili)

Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Neil McEvoy (Canol De Cymru)

Rhianon Passmore (Islwyn)

Vikki Howells (Cwm Cynon)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: y Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwystra a Gweithredu

Dechreuodd yr eitem am 16.49

**NDM7161** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwystra a Gweithredu, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Gorffennaf 2019.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl Plaid Cymru - Treth Gyngor ar Ail Gartrefi

Dechreuodd yr eitem am 17.41

**NDM7162** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod treth gyngor yn cael ei thalu ar ail gartrefi.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.32

**NDM7159** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Ffrind gorau ar y stryd ac oddi arni: herio'r polisi 'dim cŵn' mewn lloches a llety i'r digartref.

## 11 Dadl Fer - TYNNWYD YN ÔL

Daeth y cyfarfod i ben am 18.49

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 22 Hydref 2019**